Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Tŷ Cornel

Treharris

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12 01 2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Tŷ Cornel

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	2
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny.

Crynodeb

Caiff y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel eu cefnogi mewn ffordd wedi'i theilwra'n bersonol at eu dewisiadau a'u hanghenion. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn annibynnol, i ddatblygu ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Darperir cymorth mewn modd medrus, parchus a gofalgar, ac yn unol â chynlluniau unigol y bobl. Mae'r cynlluniau hyn yn fanwl ac yn gywir. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau personol a chaiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys fel rhan o'r broses. Caiff y bobl eu cefnogi'n fedrus i gymryd rhan yn eu hadolygiadau ac yn y broses o bennu canlyniadau personol.

Mae gan y bobl eu gofod personol yn ogystal â'r ardaloedd cymunedol yng nghartref Tŷ Cornel. Mae'r cartref yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae systemau ar waith i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff rheolaidd y cwblhawyd y gwiriadau recriwtio perthnasol ar eu cyfer er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Caiff y staff eu cefnogi i ddatblygu meysydd o ddiddordeb yn y gwasanaeth, ac i arwain y meysydd hynny.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n gyson dda gan y tîm rheoli, a chaiff hyn ei werthfawrogi gan y tîm o staff, gweithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i fyw bywydau bodlon ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Cânt eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac os nad yw hyn yn bosibl, mae prosesau helaeth ar waith i sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf yr unigolyn bob amser. Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni a chynnal eu llesiant, a darperir cyfleoedd i'w galluogi i wneud hyn.

Cynhelir adolygiadau rheolaidd mewn ffyrdd gwahanol sy'n addas ar gyfer yr unigolyn. Caiff y bobl eu cefnogi i fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni ac i gynllunio'r hyn yr hoffent ganolbwyntio arno yn y dyfodol agos a'r tymor hwy. Dywedodd gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol "*reviews always consider people's potential and what can be achieved next / what the next outcomes and what the goals are for that person."*

Caiff y bobl eu cefnogi i hyrwyddo eu hawliau fel dinasyddion yng nghartref Tŷ Cornel ac yn y gymuned ehangach. Cânt eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn croesawu cyfranogiad teuluoedd, ac mae'n hyblyg o ran y ffordd y caiff cymorth ei roi er mwyn cynnal cydberthnasau y tu allan i'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr wrthi'n recriwtio ar gyfer rhai swyddi gwag, ond mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n gyfarwydd iddynt. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau gwiriadau cyn cyflogi a hyfforddiant priodol cyn dechrau gweithio yng nghartref Tŷ Cornel, er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel.

Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn wych, ac mae wedi rhoi systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff y cartref ei redeg yn ddiogel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r gwasanaeth ac yn llunio adroddiadau yn ôl yr angen. Mae fformat yr adroddiadau hyn wrthi'n cael ei adolygu.

Mae'r bobl yn byw mewn llety diogel. Ceir gardd fach groesawgar y gellir ei defnyddio. Mae'r bobl yn fodlon eu byd yn byw yng nghartref Tŷ Cornel.

Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel eu cefnogi fel unigolion ac mae eu cynlluniau personol yn adlewyrchu hyn. Cânt eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i ymgymryd â'u gweithgareddau eu hunain, ac mae digon o staff ar gael fel arfer i alluogi hyn bob dydd. Caiff dewisiadau personol hefyd eu cefnogi mewn perthynas ag amseroedd bwyd a gall y bobl ddewis bwyta gyda'i gilydd neu ar wahân os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Caiff y bobl eu cefnogi mewn modd parchus gan y staff, yn unol â'u cynlluniau cymorth personol. Ceir rhyngweithio cynnes, hamddenol a chyfeillgar rhwng y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Defnyddir ymadroddion fel "*home*", "*nice*" "*open*" a "*lovely*" gan y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel i ddisgrifio'r gwasanaeth. Cafwyd adborth gan weithiwr proffesiynol yn nodi bod aelod o'r staff yn "*exceptional in her care and support*." Mae perthynas hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth yn "*overall, excellent"*.

Cynhelir adolygiadau yn rheolaidd ac mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cefnogi'r bobl i gymryd rhan mewn modd ystyrlon. Caiff safbwyntiau perthnasau a gweithwyr proffesiynol hefyd eu casglu fel rhan o'r broses adolygu. Lle bo angen, caiff cynlluniau eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau i anghenion neu gynnydd tuag at gyflawni nod, neu pan fydd gan unigolyn nod newydd y mae am ei gyflawni.

Trefnir cyswllt rheolaidd gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen, a chaiff cofnodion dyddiol manwl eu cwblhau. Caiff y bobl eu cefnogi i feithrin eu hannibyniaeth a chaiff cyflawniadau eu cydnabod a'u hatgyfnerthu mewn ffordd gadarnhaol. Pan fydd unigolion yn symud ymlaen o'r gwasanaeth, bydd y staff yn eirioli dros yr unigolyn er mwyn sicrhau y caiff ei lais ei glywed yn ystod y broses bontio ac er mwyn sicrhau bod unrhyw newid yn un cadarnhaol. Yn yr un modd, pan fydd unigolyn yn symud i fyw yn y gwasanaeth, bydd y rheolwr yn sicrhau y caiff ei addasrwydd ei ystyried a'i fonitro'n rheolaidd.

Mae systemau diogel a chlir ar waith i'r staff gofal gefnogi'r bobl gyda'u meddyginiaeth. Mae Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth ar waith ac yn cael eu cwblhau'n gywir. Cynhelir archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd, ac mae hyfforddiant meddyginiaeth y staff gofal yn gyfredol. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ac yn drefnus.

Mae gan y staff gofal wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant diogelu'r staff gofal yn gyfredol ac mae prosesau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.

Mae'r staff gofal yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon yn fewnol ac maent yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion gyda'r rheolwr. Mae polisïau diogelu ar waith, sy'n gyson â'r canllawiau cyfredol ac yn cynnwys lefel dda o fanylion.

Yr Amgylchedd

Mae Tŷ Cornel yn cynnig gwasanaeth cynnes a chyfforddus mewn amgylchedd cartrefol a chroesawgar. Mae cynllun y cartref yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r bobl sy'n byw yno. Mae digon o le i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd neu iddynt ddilyn eu diddordebau eu hunain, os yw'n well ganddynt wneud hynny.

Mae gardd gefn fach ar gael i'r bobl ei defnyddio. Mae ffens ddiogel o'i chwmpas ac mae wedi'i hamgylchynu â choed aeddfed. Mae'r ardd yn cynnwys patio ac ardal laswelltog, gyda llwybr rhyngddynt. Mae'r llwybr hwn yn anwastad a gallai beri anhawster i bobl ag anghenion symudedd, ond nid yw'n achosi trafferth i'r bobl sy'n byw yno ar hyn o bryd. Mae seddau ar gael yn y ddwy ran o'r ardd a chafodd anghenion synhwyraidd y bobl eu hystyried wrth ddylunio cynllun yr ardd.

Mae gan gartref Tŷ Cornel gegin/ystafell fwyta y gall y bobl eu defnyddio fel y mynnant. Mae digon o le i'r bobl gael eu cefnogi a'u cynnwys wrth wneud eu prydau bwyd. Caiff yr ardal hefyd ei defnyddio i gymdeithasu neu ar gyfer gweithgareddau annibynnol.

Mae amserlenni a chynllunwyr gweledol unigol wedi'u harddangos er mwyn helpu'r bobl i wybod beth yw'r cynlluniau ar gyfer y diwrnod hwnnw a'r wythnos i ddod. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn bersonol iawn, a chânt eu parchu fel ardal breifat yr unigolyn. Maent wedi'u dodrefnu/addurno yn unol â chwaeth a diddordebau personol yr unigolyn.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel, a bod gwiriadau a phrosesau rheolaidd ar waith i gynnal y safonau sy'n ofynnol. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cartref yn ogystal â chwblhau gwiriadau tân ac ymarferion tân rheolaidd.

Caiff y bobl eu cefnogi i feithrin eu hannibyniaeth drwy gynnal a chadw eu hystafelloedd a'u heitemau eu hunain, ac mae hyn yn cynnwys defnyddio cynhyrchion golchi dillad a glanhau. Mae prosesau ac asesiadau risg ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn wych, gan gynnwys unrhyw newidiadau i anghenion neu ganlyniadau personol y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel. Mae'r rheolwr yn gyfrifol am ddau gartref bach sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd, ac mae uwch-weithiwr gofal sy'n helpu i redeg y cartref. Caiff y staff gofal eu cefnogi i arwain a goruchwylio meysydd ymarfer, sy'n hyrwyddo datblygiad y staff yn ogystal â sicrhau y caiff safonau uchel eu cynnal yn y gwasanaeth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau bob tri mis, sy'n cynnwys cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu adolygu fformat yr ymweliadau a'r adroddiadau ar ansawdd y gofal.

Nid yw'r gwasanaeth yn hybu'r Gymraeg ar hyn o bryd. Gallai rhoi'r cynnig rhagweithiol ar waith ar hyn o bryd gael effaith negyddol ar y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel. Fodd bynnag, os bydd pethau'n newid, bydd y gwasanaeth yn adolygu'r sefyllfa o ran darparu'r cynnig rhagweithiol.

Mae lefelau digonol o staff ar gael i'r bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Cornel. Mae'r lefelau staffio yn sicrhau bod y bobl yn gallu dilyn eu diddordebau ar wahân, sy'n cynnwys mynd allan i'r gymuned bron bob dydd. Er nad yw lefelau staffio parhaol Tŷ Cornel cystal ag y gallent fod, caiff cymorth ei ddarparu gan staff gofal cyson ac mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio.

Caiff y staff gofal eu goruchwylio'n rheolaidd a'u harfarnu bob blwyddyn. Mae ffeiliau personél y staff yn cynnwys y gwiriadau recriwtio priodol, fel geirdaon a hanes gwaith ynghyd â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r staff gofal yn fodlon yn eu swyddi a cheir tystiolaeth o ddatblygiad gyrfa yn y gwasanaeth, gyda throsiant staff cymharol isel.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 24/03/2023